**ADEILADU BYWYDAU HAPUSACH, CRYFACH, MWY DIOGEL**

**STRATEGAETH TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU 2023 - 2027**

## Adran 1

### Cyflwyniad gan Gadeirydd Gweithrediaeth Ddiogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chadeirydd y Bwrdd Strategol Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae rhoi terfyn ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a chefnogi'r rhai sydd ei angen yn fusnes i bawb ac mae'r strategaeth hon, ein hail i'w chyhoeddi, yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

Gellir priodoli ein cyflawniadau yn y pedair blynedd diwethaf, a nodir yn y ddogfen hon, i arweinyddiaeth, cydweithrediad ac ymrwymiad rhanddeiliaid a goroeswyr a diolchwn i bawb am eu cyfraniad a'u gwydnwch. Er ei bod yn iawn i ni gydnabod a dathlu'r rhain, mae gwaith i'w wneud o hyd a'n nod yw adeiladu ar ein momentwm a'n cynnydd a chyflawni newid a gwelliannau pellach i unigolion a theuluoedd sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ein cymunedau.

Mae goroeswyr a rhanddeiliaid wedi blaenoriaethu'r angen i ganolbwyntio ar wasanaethau ataliol a chymorth i blant a phobl ifanc a'r angen parhaus i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymhlith gweithwyr proffesiynol ac yn ein cymunedau. Rydym wedi gwrando ac mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu trosi i'r strategaeth hon.

Effeithiodd y pandemig ar ein bywydau bob dydd a'n rhyddid mewn ffyrdd nad oeddem erioed wedi'u profi o'r blaen. I'r rhai sy'n byw gyda cham-drin domestig, roedd y canlyniadau hyd yn oed yn fwy a hoffwn gydnabod ymateb di-ffael y gwasanaethau arbenigol a statudol a ddarparodd gymorth a diogelwch achub bywyd i unigolion a theuluoedd drwy gydol y pandemig.

Er bod y pandemig ar ei eithaf wedi mynd heibio, rydym bellach yn wynebu heriau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol sylweddol pellach. Mae teuluoedd yn profi argyfwng costau byw, mae Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu'n ddiwydiannol ac mae ein gwasanaethau arbenigol yn wynebu'r hyn a alwyd yn *storm berffaith*[1] o ran galw uchel am wasanaethau, diffyg cyllid cynaliadwy a heriau recriwtio a chadw sydd, gyda'i gilydd, yn gwthio'r sector i'r *dibyn*[2].

Mae ein sector arbenigol yn hanfodol i gyflawni ein gweledigaeth i Adeiladu Bywydau Hapusach, Cryfach a Mwy Diogel. Mae'n hollbwysig felly bod adnoddau'n cael eu buddsoddi i gynnal a datblygu gwasanaethau ac ymyriadau i'n galluogi i gyflawni ein

---

[1] Storm Berffaith: Yr argyfwng ariannu yn gwthio sector VAWDASV Cymru i'r dibyn, Cymorth i Ferched Cymru Hydref 2022 https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/11/Perfect-Storm-Report-CYM-compressed.pdf
[2] Ibid

hamcanion rhanbarthol a gwella bywydau unigolion a theuluoedd sy’n profi trais a chamdriniaeth.

Mae'r heriau rydym yn parhau i'w hwynebu yn ei gwneud yn ofynnol i ni gryfhau ein partneriaethau ymhellach i gyflawni ein blaenoriaethau.

Caiff y strategaeth hon ei llywio gan anghenion a phrofiadau goroeswyr a rhanddeiliaid yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ac, er iddi gael ei datblygu yng nghyd-destun Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-2026 Llywodraeth Cymru, mae’n adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol a'i nod yw sicrhau gwelliannau i unigolion, teuluoedd a chymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

Byddwn yn canolbwyntio ar ddeall beth sy'n gweithio i unigolion, teuluoedd a chymunedau yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ac yn rhannu'r hyn y byddwn yn ei ddysgu i lywio arferion a gwelliannau polisi ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Wrth flaenoriaethu cyflawni ar gyfer canolbarth a gorllewin Cymru, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru a’u dull Glasbrint fynd i’r afael ar fyrder a darparu model ariannu cynaliadwy trawslywodraethol ar gyfer y sector Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol arbenigol ac i arwain ar gyflawni’r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth fel ein bod gyda’n gilydd yn gweithio i gyflawni ein gweledigaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

**Jake Morgan**
**Cadeirydd y Weithrediaeth Ddiogelu, Canolbarth a Gorllewin Cymru.**

**Ditectif Brif Arolygydd Richard Yelland**
**Cadeirydd y Bwrdd Strategol Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.**

## Adran 2

### Cyd-destun Deddfwriaethol a Strategol ar gyfer y Strategaeth hon

Mae'r ddeddfwriaeth a'r strategaethau a ganlyn wedi llywio datblygiad ein blaenoriaethau ar gyfer 2023 – 2027:

- Deddf Cam-drin Domestig 2021
- Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-2026
- Cynllun Heddlu a Throseddu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys 2012-2025
- Polisi Adolygiad o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) 2021 Llywodraeth Cymru
- Diogelu Plant yr effeithir arnynt gan Gam-drin Domestig, Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan 2019
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Tai (Cymru) 2014

Ystyriwyd y canlynol hefyd:

- Cysur, Cynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru 2022-23
- Adroddiad Drafft Asesiad Anghenion Poblogaeth Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru Mehefin 2022
- Asesiad Anghenion Poblogaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys ac Adroddiad Blynyddol 2021-22
- Asesiadau a Chynlluniau Llesiant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru
- Yr Hyn sy'n Gweithio i Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Asesiad Tystiolaeth Systemig: Uned Atal Trais Cymru 2021
- Atal Trais Rhywiol yn Economi'r Nos: Gwerthusiad Annog Gwylwyr Gweithredol yn Erbyn Trais Mai 2022
- Dyletswydd i Gefnogi: Adroddiad ymchwil yn adolygu cymorth i blant a phobl ifanc sy’n profi trais a chamdriniaeth yng Nghymru, Cymorth i Ferched Cymru a Joyce Watson AS 2022
- Storm Berffaith: Yr argyfwng ariannu yn gwthio sector Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru i’r dibyn, Cymorth i Ferched Cymru Hydref 2022

## Adran 3

**Nifer yr achosion o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru**

Cynnydd o 40% mewn adroddiadau o Droseddau Rhywiol rhwng 2020 a 2022

Cynnydd o 22% mewn adroddiadau o Gam-drin Domestig rhwng 2020 a 2022

Mae cyflwyno’r Drafodaeth Ddyddiol wedi arwain at ostyngiad o 13% yn yr achosion a drafodwyd yn MARAC rhwng 2021 a 2022

Yn 2020/21*
Derbyniodd 2346 o unigolion gymorth yn y gymuned ar draws canolbarth a gorllewin Cymru
Defnyddiodd 360 o unigolion wasanaethau lloches

Yn 2021/22*
Derbyniodd 2399 o unigolion gymorth yn y gymuned ar draws canolbarth a gorllewin Cymru
Defnyddiodd 406 o unigolion wasanaethau lloches

*Mae’r data hwn wedi’i ddarparu gan Cymorth i Ferched Cymru ar ran gwasanaethau’r aelodau. Sylwch na ddylid gwneud unrhyw gymariaethau uniongyrchol rhwng data blynyddol oherwydd y gwahaniaeth yn nifer y darparwyr sy'n cyflwyno gwybodaeth.

Yn y ddwy flynedd 2020-2022 bu

Cynnydd o 45% yn nifer y cleientiaid sy'n defnyddio gwasanaethau ISVA
Cynnydd o 35% yn nifer y cleientiaid sy’n cyrchu cwnsela mewn ymateb i brofiadau o drais a cham-drin rhywiol
Cynnydd o 57% yn nifer y cleientiaid sy'n defnyddio gwasanaethau Lles Llwybrau Newydd

## Adran 4

Pwy sydd wedi llywio'r strategaeth hon?

Mae'r rhanddeiliaid a ganlyn wedi llywio datblygiad y strategaeth hon

26 o oroeswyr o bob rhan o ganolbarth a gorllewin Cymru
BAWSO
DVS Calan
Cyngor Sir Caerfyrddin
Gwasanaethau Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Dewis Choice
Heddlu Dyfed-Powys
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Goleudy

Hafan Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Fforwm Aelodaeth Cymorth i Ferched Cymru Canolbarth a Gorllewin Cymru
Canolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn
Llwybrau Newydd
Cyngor Sir Penfro
Pobl
Cyngor Sir Powys
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Gwasanaeth Prawf
Gwasanaeth Cam-drin Domestig Trothwy
Gwasanaethau Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru

**Adran 5**

**Effeithiolrwydd a Manteision y Strategaeth 2018-2022**

*Effeithiolrwydd*

Ymatebodd 19 o asiantaethau gan gynnwys rhanddeiliaid, darparwyr cymorth arbenigol a chomisiynwyr i holiadur a oedd yn archwilio effeithiolrwydd y strategaeth bresennol o ran cyflawni ei hamcanion.

- Ymatebodd 68% fod y strategaeth wedi gwella'r graddau yr oedd goroeswyr yn llywio penderfyniadau yn y rhanbarth

- Ymatebodd 89% fod y strategaeth wedi cyfrannu at godi ymwybyddiaeth ymhlith dinasyddion a chymunedau canolbarth a gorllewin Cymru

- Ymatebodd 74% fod y strategaeth wedi cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth plant a phobl ifanc o berthnasoedd diogel, cyfartal ac iach

- Ymatebodd 63% fod y strategaeth wedi cael effaith ar ddwyn troseddwyr i gyfrif a darparu ymyriadau priodol*

- Ymatebodd 76% fod y strategaeth wedi arwain at fwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal

- Teimlai 94% o’r ymatebwyr fod y strategaeth wedi gwella gwybodaeth a dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

- Ymatebodd 68% fod y strategaeth wedi gwella effeithiolrwydd comisiynu yn y rhanbarth

- Teimlai 84% o'r ymatebwyr fod y strategaeth wedi cryfhau gweithio mewn partneriaeth yn y rhanbarth

- Teimlai 63% o’r ymatebwyr fod y strategaeth wedi gwneud llywodraethu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y rhanbarth yn fwy effeithiol*

*Dywedodd rhai ymatebion gan asiantaethau nad oeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth i ateb y cwestiynau hyn

Pan ofynnwyd iddynt nodi pa ffactorau a oedd yn rhwystro neu herio effeithiolrwydd y strategaeth, y pedwar prif ymateb oedd

- Dim digon o adnoddau ariannol i gyflawni blaenoriaethau (79%)
- Gallu i fynychu cyfarfodydd (53%)
- Materion cystadleuol rhwng darparwyr (53%)
- Cymhlethdod prosesau comisiynu (42%)

*Manteision*

*Mae'r strategaeth wedi'i gwreiddio yn rhanbarth canolbarth a gorllewin Cymru ac mae wedi dod â nifer o bartneriaid a sefydliadau ynghyd i gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y strategaeth.*

Rhestrodd y rhanddeiliaid y manteision a ganlyn yn sgil y strategaeth:

- Darparu ffocws ac ymagwedd gydlynol
- Sicrhau bod pob asiantaeth yn ymwybodol o'r blaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol
- Cefnogaeth i fynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau
- Cefnogaeth i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Wedi galluogi gwneud cais am gyllid ychwanegol, gan wneud gwasanaethau fel ymyriadau troseddwyr yn fwy cynaliadwy
- Cefnogi ac annog gweithio mewn partneriaeth
- Cryfhau llywodraethu a chyflawni
- Canolbwyntio pob asiantaeth ar y blaenoriaethau a dod â gweithgorau ystyrlon ynghyd a all roi newid ar waith
- Gwelliant o ran gwneud penderfyniadau a chyfeiriad darparu gwasanaethau
- Mwy o weithio mewn partneriaeth
- Mae rôl yr Ymgynghorydd Rhanbarthol a’r tîm Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol wedi bod yn amhrisiadwy wrth yrru mentrau yn eu blaenau a gwneud y gorau o’r cyfleoedd ariannu sydd ar gael
- Dyraniad canolog o adnoddau
- Sicrhau bod gwasanaethau a ddatblygir yn cwrdd ag anghenion y gymuned
- Mae gan wasanaethau arbenigol yn y rhanbarth berthnasoedd gwaith llawer agosach ers i ni gael y strategaeth
- Codi proffil Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol ac ymrwymiad i gyflawni'r agenda
- Gosod cyfeiriad clir
- Y gallu i fapio cynnydd

- Canolbwyntio ar yr allbynnau
- Rhoi sicrwydd i'r gwaith sy'n cael ei wneud a'i gyflawni
- Wedi'i alinio ag angen rhanbarthol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru
- Wedi cefnogi cydweithrediad rhanbarthol unedig cryfach gyda llinellau adrodd clir ac atebolrwydd
- Lleihau dyblygu gwasanaethau

**Adran 6**

**Llwyddiannau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru 2018 – 2022**

**Penodi'r Ymgynghorydd Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol** – mae'r penodiad hwn wedi dod â chydlyniant i'r ymagwedd ranbarthol a ffocws ar atal a datblygu gwasanaethau.

*Mae swydd yr ymgynghorydd rhanbarthol wedi cael effaith sylweddol ar ysgogi gwelliannau a datblygiad y gwasanaethau rhanbarthol i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.*

*Mae rôl yr Ymgynghorydd Rhanbarthol a'r tîm rhanbarthol wedi bod yn amhrisiadwy wrth yrru mentrau yn eu blaenau a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ariannu sydd ar gael.*

**Partneriaethau Cryfach** yn arwain at adnoddau cyfun i fuddsoddi mewn datblygu gwasanaethau a darparu dros 70 o ymyriadau gwahanol gan wasanaethau cymorth arbenigol yn y rhanbarth

Dull rhanbarthol o ymdrin ag **Ymyriadau Troseddwyr** gan gynnwys cynnig y Rhaglen Dewisiadau a'r Hwb Ymyrraeth Digidol

**Cytuno ar gymhareb ariannu rhanbarthol** sydd wedi cyfrannu at ehangu Ymyriadau Troseddwyr ac a fydd yn pennu cyllid ar gyfer prosiectau rhanbarthol yn y dyfodol

**Adolygiad Llywodraethu** yn arwain at arolygiaeth ranbarthol a lleol gadarn o gyflawni'r strategaeth

Cyflwyno **Pecyn Cymorth ac Ymyrraeth Stelcio ac Aflonyddu** wedi'i werthuso

**Sefydlu a Gwerthuso Trafodaethau Dyddiol Amlasiantaethol** i ddiogelu unigolion a phlant sy'n profi cam-drin domestig

Ymgorffori **Ymgyrch Soteria** yn ymarfer Plismona a Phartneriaid i wella canlyniadau i ddioddefwyr trais a cham-drin rhywiol

Sefydlu **Panel Cynghori Goroeswyr** i lunio a llywio'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau yn y rhanbarth

Datblygu a darparu **adnoddau ac ymgyrchoedd rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth** gan gynnwys Pobl Hŷn, Cam-drin Plant i Rieni, Dioddefwyr Gwrywaidd, Mentrau Gwylwyr ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig

Cyflwyno gwasanaethau **AR TRAC** i blant a phobl ifanc a'r **Rhaglen Ysbrydoli Teuluoedd** ar draws y rhanbarth

Gweithredu **Ymgyrch Cwmpasu** yn rhanbarthol

Datblygu **pecyn hyfforddi digidol a chyfeiriadur adnoddau** ar gyfer Ysgolion a darparwyr Addysg

Wedi sicrhau **cyllid ychwanegol o £2m** ar gyfer gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sydd wedi cefnogi prosiectau cyfalaf, cynyddu capasiti gwasanaethau a chefnogi dioddefwyr gyda Dim Hawl i Arian Cyhoeddus (NRPF)

Sefydlu 2 **weithiwr cymorth arbenigol BAWSO** yn y rhanbarth i roi cymorth i fenywod o gefndiroedd diwylliannol amrywiol

Cwblhau adolygiad o'r dirwedd gomisiynu bresennol gan arwain at **Strategaeth Gomisiynu Ranbarthol a Manyleb Gwasanaeth Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Sefydlu **cynllun peilot IRISi** mewn Gofal Sylfaenol yn Sir Gaerfyrddin gydag ymrwymiad gan bartneriaid i'w gyflwyno ar draws y rhanbarth

Partneriaeth rhwng Dewis Choice, Cymdeithas Tai Bro Myrddin Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu **mannau diogel i bobl hŷn** sy'n profi cam-drin domestig fel dewis amgen i loches

Dod â ffocws i **Gam-drin Plant i Rieni** gyda datblygu dogfen ganllaw ranbarthol, hyfforddiant i ymarferwyr a chyflwyno asesiad PRAM

Rhaglen **Llysgenhadon Cymunedol** gyda'r Sector Gwallt a Harddwch ar draws canolbarth a gorllewin Cymru

Cyflwyno'r **Rhaglen Fyrdd** mewn dwy o'r pedair sir yn y rhanbarth. Mae'r Rhaglen Fyrdd yn Rhaglen Adferiad 8 wythnos LHDTC+.

Sefydlu **Cyfleusterau Tystiolaeth o Bell** ar draws y Rhanbarth

*Mae'r Rhanbarth wedi bod yn arloesol ac wedi buddsoddi mewn datblygu gwasanaethau. Yr her nawr yw cynnal y mentrau hyn*

**Adran 7**

## Egwyddorion

Mae 11 o egwyddorion allweddol wedi'u nodi drwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a goroeswyr. Bydd y rhain yn sail i'r blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth hon a'n dull o gyflawni.

Llais y Goroeswyr
Dull Cymdeithas Gyfan
Cydraddoldeb
Croestoriad
Cydweithio a Chydgynhyrchu
Dealltwriaeth gynhwysfawr o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
Ymyrraeth Gynnar ac Atal
Ar sail trawma
Mynd i'r afael â thrais gwrywaidd
Arweinyddiaeth
Cynaliadwyedd

Wrth ddatblygu ein blaenoriaethau strategol gwnaethom nodi pedair cydran y gellir eu gweld fel **galluogwyr a chynhalwyr newid a gwelliant**. Maent yn cynnwys gwella ac integreiddio prosesau craidd i hwyluso datblygiad ffyrdd cyson a chydlynol o wella canlyniadau i unigolion a’u teuluoedd sy’n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig neu Drais Rhywiol. Y galluogwyr hyn yw;




Ariannu Cynaliadwy

Mae Adroddiad ar Gyflwr y Sector Cymorth i Ferched Cymru 2022[3] yn nodi conglfeini model ariannu cynaliadwy fel

- Ffocws ar Ymyrraeth Gynnar ac Atal
- Cyllid cynaliadwy sy'n cefnogi plant a phobl ifanc
- Rhoi pwys cyfartal i Wasanaethau Trais Rhywiol
- Ymrwymiad parhaus i gymorth lloches a llety
- Cynnydd yn narpariaeth gwasanaeth ‘Gan ac Ar Gyfer’
- Ateb i gefnogi goroeswyr heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus yng Nghymru
- Cydnabod bod yn rhaid i gam-fanteisio rhywiol fod yn rhan o'r fframwaith o roi terfyn ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Ymyriadau troseddwyr achrededig gan gynnwys ymyrraeth gynnar

Ar adeg pan fo gwasanaethau arbenigol yn ymateb i alw digynsail maent hefyd yn wynebu argyfwng o ran recriwtio a chadw staff medrus a phrofiadol sy’n gadael y sector oherwydd cyflogau is o gymharu â Gwasanaethau Cyhoeddus, contractau tymor byr, llwythi achosion uchel a chymhleth a gofynion oriau gwaith tu allan i oriau.

Nid yw’r angen i gytuno ar fodel ariannu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol erioed wedi bod mor hanfodol.

## Adran 8

### Goroeswyr

Mae ein strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol cydweithio a gwrando ar oroeswyr sy’n ‘arbenigwyr trwy brofiad’ o ran yr hyn sydd wedi gweithio iddynt, eu llwybrau drwy wasanaethau a pha mor hawdd (neu anodd) fu dod o hyd i’r gwasanaeth cywir i’w gefnogi i symud tuag at annibyniaeth ac adferiad.

Ymgynghorwyd â 26 o oroeswyr wrth ddatblygu’r strategaeth hon ac mae eu lleisiau a’u profiadau wedi bod yn rhan annatod o’r gwaith o’i datblygu, ei chyflwyno a’i monitro, a bydd yn parhau i wneud hynny.

Roedd cysondeb cryf yn y themâu y siaradodd goroeswyr amdanynt o ran eu profiadau a beth ddylai fod yn flaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth.

### Agweddau cyhoeddus – codi ymwybyddiaeth o bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

*Doeddwn i ddim yn gwybod fy mod mewn sefyllfa ddifrïol*
*Doedd dim cam-drin corfforol felly doeddwn i ddim yn ei adnabod fel cam-drin*

Siaradodd goroeswyr am yr angen am fwy o ymwybyddiaeth ar draws cymdeithas o bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Buont yn siarad am bwysigrwydd iaith a delweddaeth i alluogi gwahanol grwpiau mewn cymdeithas i weld eu hunain a’u profiadau a’r angen i wybodaeth fod yn weladwy

[3] https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/12/State-of-the-Sector-2021-CYM.pdf

mewn cymunedau, mannau y mae pobl yn mynd iddynt, yn ogystal â thrwy ddulliau eraill. Siaradodd goroeswyr am bwysigrwydd gwybodaeth i alluogi unigolion, eu teulu a ffrindiau i adnabod camdriniaeth a cheisio cymorth a chefnogaeth.

Nododd 78% o'r goroeswyr a fynychodd y digwyddiad ymgynghori hyn fel un o'r tair blaenoriaeth uchaf.

**Gwerth y Sector Arbenigol**

Siaradodd goroeswyr am bwysigrwydd gwasanaethau ymatebol, hygyrch, croestoriadol a all ddiwallu eu hanghenion.

*Gallu curo ar ddrws a chael y gwasanaeth sydd ei angen arnoch ar yr amser iawn.*

Siaradodd goroeswyr hefyd am yr angen i gael gwasanaethau cymorth ar gyfer holl ddioddefwyr trais a chamdriniaeth

*Mae angen help i bawb*

Myfyriodd goroeswyr ar eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol

*Diduedd ac amhrisiadwy*
*Gwrando a deall*
*Wrth eich ochr*
*Fyddwn i ddim yma nawr oni bai am y gwasanaeth*
*Teimlo'n saff a diogel gyda nhw...fe wnaethon nhw roi cyfle i mi ddechrau eto*
*Achubodd y gwasanaeth fy mywyd*
*Fe wnaethon nhw wrando arna i a fy helpu*
*Maen nhw'n gwrando, yn parchu ac yn dilysu fy mhrofiadau…..fe wnaethon nhw atgyfnerthu fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi ac yn werth chweil…nid yw pobl hŷn yn aml yn teimlo hyn, gallwn ddod yn anweledig*
*Maen nhw wedi fy helpu i ddeall fy hawliau ac wedi fy ngalluogi i wneud fy mhenderfyniadau fy hun*
*Fe wnaethon nhw wrando arna i, fy helpu i ddeall ac roedden nhw yno i siarad â nhw pryd bynnag roedd angen (person ifanc)*

Siaradodd goroeswyr hefyd am yr heriau i gael mynediad at wasanaethau gan gynnwys byw mewn ardaloedd gwledig, trafnidiaeth gyhoeddus a chostau tanwydd cynyddol.

Er bod goroeswyr wedi cael eu cefnogi neu yn cael eu cefnogi gan wasanaethau arbenigol yn y rhanbarth, nid oedd yr un ohonynt yn ymwybodol o'r cymorth a oedd ar gael tra oeddent yn eu perthnasoedd camdriniol a dim ond drwy gael eu hatgyfeirio gan wasanaethau eraill yr oeddent wedi canfod eu ffordd at wasanaethau. Siaradodd goroeswyr am yr angen i wybodaeth am wasanaethau arbenigol fod yn weladwy ac yn hygyrch mewn cymunedau.

Siaradodd dioddefwyr gwrywaidd am heriau penodol a brofwyd ganddynt wrth geisio cymorth

*Yr her fwyaf oedd dod o hyd i rywun i'n helpu*
*Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud ... doeddwn i ddim yn gallu gweld ffordd allan*

**Gwasanaethau arbenigol, pwrpasol i Blant a Phobl Ifanc**

Siaradodd goroeswyr am yr effaith ar eu plant o gael eu cam-drin gan gynnwys gorbryder, hunan-niwed, effaith ar iechyd meddwl ac iechyd a lles cyffredinol.

Dewisodd 90% o'r goroeswyr a fynychodd ddigwyddiad ymgynghori gefnogaeth i blant a phobl ifanc fel blaenoriaeth ar gyfer y strategaeth gan wneud hon y flaenoriaeth bwysicaf i oroeswyr.

*Dylai ein plant fod yn hyderus a phendant...mae mor bwysig eu bod yn gwybod beth yw perthynas iach*

Roedd goroeswyr eisiau gwasanaethau cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc a oedd yn ddioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod a siaradwyd am bwysigrwydd addysg a gwaith atal mewn ysgolion a cholegau.

**Mae grwpiau goroeswyr a chymorth cymheiriaid ar gael ym mhob ardal, i leihau arwahanrwydd a gwneud y mwyaf o fannau annibynnol sy'n cynyddu hyder, parch a grymuso.**

*Mae goroeswyr angen cyfle i ddod ynghyd i rannu profiadau a chefnogi adferiad ei gilydd*

*Teimlo'n unig iawn, ble ydw i'n mynd nawr, sut ydw i'n cymysgu â phobl*

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth Ymarferwyr**

Siaradodd rhai goroeswyr am brofiadau cadarnhaol gydag ymarferwyr a oedd wedi nodi eu camdriniaeth ac wedi cynnig llwybrau at gymorth

*Fe wnes i leihau a normaleiddio'r hyn roeddwn i'n mynd drwyddo – y cwnselydd a'r nyrs wnaeth adnabod cam-drin ac roedd yn rhyddhad dweud wrth rywun beth oedd yn digwydd*

*Roedd yn normal yr hyn roeddwn i'n ei brofi – doeddwn i ddim yn gwybod dim gwahanol – y parafeddyg a'r ymgynghorydd oedd yn cydnabod y cam-drin*

*Pan siaradodd y gweithiwr cymdeithasol â mi a thynnu sylw at sut roedd fy mhartner wedi bod yn fy rheoli roedd mor annisgwyl – doeddwn i ddim yn adnabod y rheolaeth a'r gamdriniaeth.*

Siaradodd llawer o oroeswyr am brofiadau negyddol gyda'r Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd, yn eu barn nhw, o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeinameg cam-drin domestig ac ymddygiadau gorfodi a rheoli.

*Roeddwn yn teimlo fy mod yn ymladd yn erbyn yr heddlu drwy'r amser ac ai fi oedd y dioddefwr*
*Roedd yn ddinistriol iawn y ffordd roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn delio â mi – mor ddiraddiol*

Dealltwriaeth ymarferwyr o gam-drin teuluol – cam-drin ehangach na cham-drin rhyngbersonol

Yn y digwyddiad ymgynghori nododd dros ddwy ran o dair o'r goroeswyr hyn fel blaenoriaeth ar gyfer y strategaeth, y drydedd flaenoriaeth uchaf a ddewiswyd yn y digwyddiad.

**Gwell ymwybyddiaeth ac ymateb i gam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder teuluol (CAFCASS Cymru, barnwyr a phersonél y llys, cynrychiolwyr cyfreithiol)**

*Mae'r system wedi torri*

*Brwydr waeth na'r gamdriniaeth ei hun*

Siaradodd goroeswyr yn negyddol am eu profiad o'r system llysoedd teulu, achosion cyswllt plant a'r diffyg dealltwriaeth ac ystyriaeth a roddir i gam-drin domestig, ymddygiadau gorfodi a rheoli a stelcian ac aflonyddu. Siaradodd goroeswyr am eu profiad o droseddwyr yn defnyddio'r system llys teulu i barhau i'w cam-drin a'u rheoli.

**Ffocws ar weithio gyda'r rhai sy'n cam-drin – i addysgu a chefnogi newid ymddygiad**

Nododd bron i hanner y goroeswyr a fynychodd y digwyddiad ymgynghori hyn fel blaenoriaeth.

Buont yn siarad am y rhai a oedd yn gyfrifol am y cam-drin yn cael eu dal yn atebol ac yn cael cyfleoedd i newid eu hymddygiad trwy gymorth ac ymyrraeth.

**Opsiynau Llety Diogel**

Siaradodd goroeswyr am yr angen am ystod o opsiynau llety diogel i gwrdd ag anghenion unigolion a theuluoedd ac i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n wynebu rhai unigolion ar hyn o bryd e.e. goroeswyr hŷn, teuluoedd mwy, unigolion ag anghenion cymorth cymhleth, unigolion sy'n gweithio.

## Adran 9

### Blaenoriaethau

Gofynnwyd i Randdeiliaid a Goroeswyr nodi beth oedd eu blaenoriaethau ar gyfer y strategaeth. Roedd y tair blaenoriaeth uchaf a nodwyd gan y ddau grŵp fel a ganlyn

Goroeswyr

1. Hyrwyddo a Chefnogi Perthnasoedd Iach ar gyfer Plant a Phobl Ifanc
2. Agweddau'r cyhoedd – codi ymwybyddiaeth o bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
3. Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Rhanddeiliaid

1. Hyrwyddo a Chefnogi Perthnasoedd Iach ar gyfer Plant a Phobl Ifanc
2. Agweddau'r cyhoedd – codi ymwybyddiaeth o bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
3. Comisiynu gwasanaethau arbenigol i ddiwallu anghenion goroeswyr

Siaradodd Rhanddeiliaid a Goroeswyr am bwysigrwydd mynd i'r afael â'r croestoriadedd yn y strategaeth, nid yn unig drwy ddatblygu ein dealltwriaeth o anghenion gwahanol grwpiau poblogaeth ond hefyd sicrhau ein bod, fel rhanbarth, yn rhoi'r wybodaeth a'r adnoddau i'n gwasanaethau craidd ymateb i anghenion unigol ac anghenion amrywiol. Rydym wedi gwrando ar gyfranogwyr a oedd yn gyson yn eu barn bod angen mwy o bwyslais ar blant a phobl ifanc a phobl hŷn yn y strategaeth hon.

*Plant a Phobl Ifanc*

Siaradodd goroeswyr a rhanddeiliaid am yr angen i

• Ddarparu gwasanaeth hyblyg, deinamig, ymatebol ac ataliol i blant a phobl ifanc lle bynnag y maent yn byw yn y rhanbarth
• Darparu cymorth cyfannol a gwasanaethau adfer i blant a phobl ifanc sy'n cynnwys lloches a gweithwyr cymunedol/allgymorth, ymyriadau therapiwtig a CYPVA/CYPSVAs yn gyson ar draws y rhanbarth.
• Datblygu dull atal ledled y rhanbarth ar gyfer plant a phobl ifanc
• Adeiladu ar y buddsoddiad a wnaed yng ngwasanaethau Ysbrydoli Teuluoedd ac Ar Trac
• Cydnabod a gwreiddio gwasanaethau plant a phobl ifanc fel darpariaeth graidd sydd angen cyllid a buddsoddiad.

*Pobl Hŷn*

Siaradodd goroeswyr a rhanddeiliaid am yr angen i

• Godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o brofiadau pobl hŷn o gam-drin domestig a thrais rhywiol a'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael
• Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o brofiadau pobl hŷn o gam-drin rhyngbersonol a theuluol a llwybrau at gymorth
• Sicrhau bod arlwy gwasanaeth cyson ar draws y rhanbarth i gwrdd ag anghenion pobl hŷn
• Cynyddu opsiynau llety diogel i bobl hŷn sy'n profi trais a chamdriniaeth.

## Adran 10

## Ein Hamcanion 2023-2027

Rydym wedi alinio ein hamcanion rhanbarthol â’r rhai sydd wedi’u cynnwys yn Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru 2022-2026.

Y blaenoriaethau ar gyfer cyflawni a amlinellir dros y tudalennau canlynol yw'r rhai sy'n bwysig ac yn berthnasol i ganolbarth a gorllewin Cymru a dylid eu defnyddio i ddylanwadu a llywio polisi ac arfer ar lefel genedlaethol.

1. Herio agweddau’r cyhoedd at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth a lle i drafodaeth gyhoeddus gyda’r nod o’i leihau

2. Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.

3. Cynyddu ffocws ar ddod â’r rhai sy'n cam-drin i gyfrif a chefnogi'r rhai a all ymddwyn yn dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu.

4. Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth.

5. Gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.

6. Rhoi mynediad cyfartal i bob dioddefwr i wasanaethau ag adnoddau priodol, o ansawdd uchel, a arweinir gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfderau, gwasanaethau croestoriadol ac ymatebol

## Adran 11

## Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r strategaeth hon?

Gweithrediaeth Ddiogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd â’r cyfrifoldeb cyffredinol am y strategaeth hon.

Mae’r Bwrdd Strategol Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gyfrifol am gyflawni a monitro’r strategaeth a bydd yn gwneud hyn drwy gytuno ar Gynllun Cyflawni blynyddol a fydd yn nodi ei flaenoriaethau a sut y byddant yn cyflawni’r rhain.

Mae’r Bwrdd Strategol Rhanbarthol yn gweithio gyda’r grwpiau a ganlyn i sicrhau bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dylanwadu ac yn cyfrannu at flaenoriaethau lleol a rhanbarthol allweddol ehangach;

- Pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Dau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Dau Fwrdd Gweithredol Bwrdd Iechyd
- Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol
- Bwrdd Rheoli Troseddwyr Integredig Rhanbarthol
- Y ddau Fwrdd Cynllunio Ardal (Camddefnyddio Sylweddau)
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys
- Bwrdd Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed

**Adran 12**

**Sut byddwn yn mesur effaith y Strategaeth?**

Mae gallu dangos sut mae'r strategaeth yn gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion a theuluoedd yn hanfodol i'w llwyddiant.

Mae un o'r pethau sy'n galluogi newid a gwelliant a nodir yn Adran 7 yn allweddol i fonitro a mesur effaith y strategaeth hon;

Tystiolaeth o Ganlyniadau: Fframwaith perfformiad clir, seiliedig ar ganlyniadau, a all ddangos y gwahaniaeth y mae'r strategaeth yn ei wneud i fywydau unigolion a'u teuluoedd.

Bydd y Bwrdd Strategol Rhanbarthol yn datblygu fframwaith perfformiad sy’n nodi canlyniadau a dangosyddion i fesur cynnydd a llwyddiant wrth gyflawni’r Strategaeth hon a fydd yn ei dro yn rhoi tystiolaeth i randdeiliaid, goroeswyr a chymunedau o’r gwahaniaeth y mae’r strategaeth yn ei wneud ac i ba raddau y mae ein blaenoriaethau yn cael ei gyflawni.

**Cynllun Cyflawni 2023 - 2027**

**Herio agweddau'r cyhoedd at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth a gofod ar gyfer trafodaeth gyhoeddus gyda'r nod o leihau nifer yr achosion**

| Byddwn yn | Camau Gweithredu sydd eu Hangen | Canlyniad |
|---|---|---|
| Cyflwyno Cynllun Cyfathrebu Rhanbarthol TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL , wedi'i lywio gan oroeswyr a rhanddeiliaid, a fydd yn cyfleu negeseuon cydgysylltiedig a chyson i unigolion, teuluoedd, gweithwyr proffesiynol, cyflogwyr a chymunedau | Is-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL yn parhau<br><br>Cyflwyno Ymgyrchoedd Cyfathrebu mewn perthynas â;<br>• Dioddefwyr Hŷn<br>• Plant a Phobl Ifanc - agweddau a chredoau<br><br>Llywio datblygiad a chefnogi cyhoeddi ymgyrchoedd cenedlaethol yn ymwneud â;<br>• Aflonyddu ar y Stryd<br>• Aflonyddu yn y Gweithle | Negeseuon rhanbarthol cyson ar gyfer TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL<br><br>Gwybodaeth ar gael mewn mannau cymunedol, ar-lein a thrwy negeseuon gan asiantaethau<br><br>Cynllun Cyfathrebu Blynyddol sy'n cael ei lywio a'i gefnogi gan dystiolaeth ac adnoddau |
| Gwella ymwybyddiaeth ac ymatebion cyflogwyr i unigolion sy'n profi TRAIS | Nodi cyflogwyr rhanbarthol allweddol sydd â chynnig i weithio | Polisïau gweithle cadarn a phriodol |

| | | |
|---|---|---|
| YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL | gyda nhw i ddatblygu polisïau gweithle ac ymatebion i weithwyr sy’n profi Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol<br><br>Datblygu protocol rhanbarthol ar gyfer ymateb i ddatgeliadau o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y gweithle | Ymatebion gwell i weithwyr sy'n profi Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol<br><br>Mwy o atgyfeiriadau i wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol arbenigol |

**Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a’u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.**

| Byddwn yn | Camau Gweithredu sydd eu Hangen | Canlyniad |
|---|---|---|
| Parhau i gefnogi gweithrediad y Cwricwlwm, Cod a Chanllawiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) newydd | Grŵp Strategol Rhanbarthol ar gyfer Ymagwedd Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol i;<br><br>Sefydlu llwybr rhanbarthol ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc | Cefnogi dull cymdeithas gyfan Llywodraeth Cymru o gefnogi hyrwyddo cysyniad cyson o sut beth yw perthnasoedd iach.<br><br>Cefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau perthnasoedd boddhaus, iach a diogel trwy gydol eu hoes. |

| | | |
|---|---|---|
